

Mae gwestai a bwytai ar draws Cymru yn sylweddoli bod y Gymraeg yn gallu rhoi hwb aruthrol i'w busnes. Wrth ymweld â Chymru mae pobl eisiau gwybod eu bod nhw yng Nghymru—ac mae defnyddio'r iaith yn fodd i sicrhau hynny.

Mae arolwg gan Croeso Cymru yn dangos bod 82% o'r sector lletygarwch yn ystyried Cymreictod yn bwysig i'w busnes. Dyma rai syniadau i westai a bwytai sydd yn dymuno cryfhau eu delwedd Gymreig. Dyma ganllaw cyffredinol sydd yn cynnig arweiniad er mwyn cyflwyno mwy o Gymraeg. Yn ogystal mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth law i gynnig cyngor penodol i fusnesau unigol.

Hotels and restaurants across Wales are seeing that Welsh can be a big plus in promoting their business. People who come to Wales want to know they're in Wales—and using the language ensures that visitors know where they are.

A survey by Visit Wales indicates that 82% of the hospitality sector considers Welshness as something important to their business. Here are some tips for hoteliers and restaurateurs who want to up their Welsh identity. The Welsh Language Board is at hand to offer specific advice to individual businesses, too.



Pam?

- ¹Maent yn creu awyrgylch Gymreig a 'naws am le'
- ²Maent yn barhaol a does dim angen eu diweddarau'n gyson
- ³Maent yn weledol tu hwnt

Sut?

- ¹Ewch i wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg www.byig-wlb.org.uk am gyngor manwl
- ²Ffoniwch wasanaeth cyfieithu a phrawf ddarlenn rhad ac am ddim y Llinell Gyswllt ar 0845 6076070
- ³Gwnewch yn siŵr bod pob arwydd newydd yn ddwyieithog o hyn ymlaen
- ⁴Sicrhewch gysondeb o ran defnydd iaith ar arwyddion

Why?

- ¹They create a Welsh ambience and a 'sense of place'
- ²They are permanent and need little updating
- ³They are highly visible

How?

- ¹Go to the Welsh Language Board's website www.byig-wlb.org.uk for detailed information
- ²For free translation and proof reading phone the Linkline on 0845 6076070
- ³Make sure that all your signs are bilingual in future
- ⁴Be consistent with your use of language on signs

DOC

Ar agor ar gyfer archebion
brecwast 10.30^{yh} - 12^{yh}
Open for breakfast
orders 10.30^{am} - 12^{pm}
BWyDLEN DYDD TAN 6.30^{yh}
DAY MENU TILL 6.30^{pm}
BWyDLEN NOS 6.30^{yh} YMLAEN
EVENING MENU 6.30^{pm} ONWARDS
Ar agor tan 8.30^{yh} nosweithiau
Mawrth, Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn
open till 8.30^{pm} Tuesday, Wednesday,
Thursday, Friday and Saturday
diodydd cynnes ac oer
teisennau cartref danteithiol a
phwдинаu blasus!
hot and cold beverages
delicious home-made cakes and
scrumptious desserts!



Pam?

- ¹ Mae'n cyfoethogi'r holl brofiad o fwyta allan yng Nghymru
- ² Mae'n arwydd o safon ac mae'n destun sgwrs
- ³ Mae'n ofal cwsmer da—bydd yn siŵr o blesio'r siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd

Sut?


- ¹ Ewch i wefan y Llinell Gyswllt www.llinellgyswllt.com—byddant yn cyfieithu eich bwydlenni yn barhaol ac yn rhad ac am ddim
- ² Argraffwch fwydlenni dwyieithog neu sicrhewch fod eich staff yn cynnig bwydlen Gymraeg neu Saesneg

Why?

- ¹ It enhances the whole experience of dining in Wales
- ² It suggests quality and is a talking point
- ³ It's a mark of good customer service—it will please Welsh speakers and non-Welsh speakers alike

How?

- ¹ Go to the Linkline's website www.llinellgyswllt.com—they will translate your menus free of charge on an ongoing basis
- ² Publish a bilingual menu or ensure that your staff always offer a choice of either an English or Welsh menu



Pam?

¹Mae ymchwil gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos bod 68% o bobl Cymru'n ystyried gwefan ddwyieithog fel rhywbeth pwysig

²Mae defnyddio'r Gymraeg ar eich gwefan yn creu argraff gyntaf dda

³Manteisiwch ar y cyfle i ddenu cwsmeriaid sydd yn siarad Cymraeg

Sut?

¹Edrychwch allan am esiamplau o arfer da gan eich cystadleuwyr

²Defnyddiwch gyfieithydd proffesiynol—ewch i www.cyfieithwyr.cymru.org.uk

³Defnyddiwch gwmni dylunio gyda phrofiad o gynllunio gwefannau dwyieithog

Why?

¹Research by the Welsh Language Board indicates that 68% of the people of Wales consider a bilingual website as something important

²Using Welsh on your website creates a good first impression

³Reel in your Welsh speaking potential customers

How?

¹Look for examples of good practice by your competitors

²Use a professional translator—find one by going to www.welshtranslators.org.uk

³Work with a design company which has experience of creating bilingual websites



Pam?

- ¹ Mae'n annog eich staff i ymfalchïo yn eu sgiliau iaith
- ² Mae iaith Gwaith eisoes yn cael ei adnabod trwy Gymru ac wedi ei gefnogi gan arweinwyr y farchnad
- ³ Mae gwisgo'r bathodyn yn dynodi pwy yw eich staff sydd yn medru'r Gymraeg
- ⁴ Mae'n galluogi eich staff a'ch cwsmeriaid i gyfathrebu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno

Sut?

- ¹ Cysylltwch gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg am becyn sydd yn cynnwys bathodynnau, posteri, dyfeisiau pen desg a chyngor
- ² Mynnwch fod eich staff sydd yn medru'r Gymraeg yn defnyddio'r bathodyn

Why?

- ¹ It encourages your staff to take pride in their language skills
- ² The Working Welsh symbol is recognised across Wales and is endorsed by market leaders
- ³ It identifies your Welsh speaking staff through their simply wearing a badge
- ⁴ It will enable your staff and customers to interact in Welsh if they so wish

How?

- ¹ Contact the Welsh Language Board for a package which includes badges, posters, desk devices and advice
- ² Ensure that your Welsh speaking staff use the badge

Cymraeg sylfaenol i staff
Basic Welsh for staff



Pam?

- ¹ Croeso, bore da, nos da, diolch—mae defnyddio'r Gymraeg yn cryfhau eich delwedd Gymraeg
- ² Mae gwybod ychydig am y Gymraeg yn galluogi eich staff i drafod yr iaith gyda cwsmeriaid

Sut?

- ¹ Cyflwynwch ddulliau sut i ddefnyddio'r Gymraeg i mewn i'ch cyrsiau anwytho gyda staff newydd
- ² Cysylltwch gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i drefnu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith
- ³ Cysylltwch gyda'ch Canolfan Gymraeg i Oedolion lleol a all deilwra cyrsiau ar-leoliad fydd yn addas i'ch anghenion
- ⁴ Ewch at wefan y Bwrdd am ddalen o ymadroddion defnyddiol

Why?

- ¹ Croeso, bore da, nos da, diolch—using the language strengthens your Welsh image
- ² Knowing a little about the language lets your staff engage with customers

How?

- ¹ Introduce the use of Welsh into your induction courses for new staff
- ² Contact the Welsh Language Board to arrange Welsh awareness courses
- ³ Speak to the Welsh for Adults centres across Wales who can arrange in-house courses appropriate to your needs
- ⁴ Download a short information sheet of useful phrases and facts for staff to keep to hand from the Board's website

Gwybodaeth
Information



diversions

Three programs of visits
around the city centre

Silver
11-13 March / Mawrth

Includes Anniversary
Programme 25

The poster features a photograph of three people in a dynamic pose, possibly dancers or athletes, against a dark background.



Pam?

- ¹Mae pob sefydliad cyhoeddus yn dymuno llwyfannu eu digwyddiadau a'u cynadleddau yn ddwyieithog
- ²Mae nifer o ddigwyddiadau preifat yn digwydd yn y Gymraeg

Sut?

- ¹Paratowch becynnau marchnata dwyieithog
- ²Dylai unrhyw arwyddion, agendâu, trefniadau a bwydlenni gael eu cynhyrchu yn ddwyieithog
- ³Gwnewch eich cleientiaid yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddarparu cyfieithu ar y pryd
- ⁴Cynigiwch wasanaeth eich staff rheng flaen a rhestr o gontractwyr dwyieithog sydd yn medru'r Gymraeg i'r trefnwyr

Why?

- ¹All public sector organisations wish to stage their events and conferences bilingually
- ²Many private events are held in Welsh

How?

- ¹Prepare bilingual marketing packs
- ²On-the-day signage, agendas, arrangements and menus should be produced bilingually
- ³Make clients aware of the possibility of providing simultaneous translation
- ⁴Offer the services of your Welsh speaking front-of-house staff and give a list of bilingual contractors to organisers

Sut i Ragori
Finishing touches



Pam?

- ¹ Mae'r busnesau gorau yn fodlon mynd y filltir ychwanegol
- ² Mae llawer o fannau cyfarfod Cymru yn cynnig y pecyn Cymreig cyflawn
- ³ Mae talu sylw at y manylion bach yn dangos gwir ymroddiad

Sut?

- ¹ Gall recordiau llais mewn liffftiau fod yn ddwyieithog
- ² Gall negeseuon peiriannau ateb fod yn Gymraeg
- ³ Beth am roi enw Cymraeg ar eich busnes?
- ⁴ Gallwch roi enwau Cymraeg ar eich ystafelloedd gwely a chynadleda
- ⁵ Gwnewch y Gymraeg yn weladwy trwy eich addurniadau —dyfynnwch farddoniaeth Gymraeg neu fframiwch eiriau caneuon Cymraeg
- ⁶ Rhowch ddalen yn eich pecyn croeso sydd yn cynnwys ffeithiau ac ymadroddion ynglŷn â'r Gymraeg
- ⁷ Chwaraewch gerddoriaeth gefndirol Cymraeg
- ⁸ Defnyddiwch daclau ymolchi gyda phecynnu dwyieithog arnynt
- ⁹ Paratowch bolisi iaith syml er mwyn sicrhau cysondeb
- ¹⁰ Mae gan arweinlyfr Naws am Le, Croeso Cymru llawer o syniadau newydd—ewch at www.industry.visitwales.co.uk

Why?

- ¹ The best businesses are willing to go that extra mile
- ² Many of Wales' best venues offer the complete Welsh package
- ³ Finer details can be the icing on the cake and show a real commitment

How?

- ¹ Voice recordings in lifts can be bilingual
- ² Answerphone messages can be in Welsh
- ³ What about giving your business a Welsh name?
- ⁴ Rooms and conference suites can be given Welsh names
- ⁵ Make Welsh visible in your décor —quote Welsh poetry or frame the words of Welsh songs
- ⁶ Include an insert of facts and phrases about Welsh in your bedroom welcome pack
- ⁷ Play Welsh-language background music
- ⁸ Use bilingually-branded toiletries
- ⁹ Write a simple Welsh-language policy to ensure consistency
- ¹⁰ Visit Wales' Sense of Place toolkit has plenty of new ideas and guidance—go to www.industry.visitwales.co.uk



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Visit Wales
Croeso Cymru

